

CYFFES FFYDD

3. AM BRIODOLAETHAU DUW

Er fod goleuni naturiol mewn person, a gwaith y greadigaeth, etc., yn profi yn amlwg fod Duw, a rheswm yn dangos nad oes ond un gwir Dduw (a), eto ni allwn ddeall pa fath un ydyw heb gael datguddiad neilltuol o hynny ganddo ef ei hun (b). Nid oes neb yn *adnabod* Duw ei hun yn berffaith ond ef ei hun (c). Yn yr Ysgrythurau Sanctaidd, y mae gennym dystiolaeth Duw amdano ei hun; ac yn ôl ei dystiolaeth yn ei air yr ydym i feddwl a chredu amdano. Ysbryd pur, anweledig, hunan-hanfodol, yw y gwir Dduw (d); heb gorff, heb rannau, na nwydau, yn dragwyddol, heb ddechreuad, cyfnewidiad, na diwedd; yn anfeidrol, ac anamgyffredadwy; yn hunan-ymddibynnol, hollbresennol, hollwybodol, a hollalluog; yn berffaith mewn sancteiddrwydd, cyfiawnder, doethineb, daioni, ac amynedd; yn raslon a thrugarog, yn maddau anwiredd, camwedd a phechod; ac eto yn ofnadwy yn ei lid; ni ddieuoga efe yr anwir, ond efe a gosba bechod â'r gosb sydd yn gyfiawn amdano (e).

Wrth briodolaethau Duw, yr ydym i feddwl y pethau sydd briodol iddo; y mae ei holl briodolaethau yn anfeidrol; ac y mae pob perffeithrwydd ynddo, ac yn briodol iddo (f).

3. Of the Attributes of God.

Though the light of nature in man, and the works of creation etc., clearly prove the being of God, and though reason proves that there is but one true God (a), still we cannot know his attributes without a special revelation from himself (b). No one knows God perfectly except himself (c). In the Holy Scriptures we have God's witness concerning himself; and as he has witnessed in his word, so ought we to think and believe concerning him. The true God is a pure, invisible, self-subsisting Spirit (d); without body, parts, or passions; eternal, without beginning, change, or end; infinite, and incomprehensible; absolute, omnipresent, omniscient, and almighty; perfect in holiness, righteousness, wisdom, and goodness; long-suffering, gracious, and merciful; forgiving iniquity and transgression and sin; but terrible in his wrath; for he will not at all acquit the wicked, but will visit sin with righteous judgement (e). By the attributes of God we are to understand his properties. All his attributes are infinite; and all perfections belong to God, and are his properties (f).

(a) Rhuf./Rom. 1:20; 1 Cor. 8:4-6; Deut. 6:4.

(b) Math/Matt. 11:27; 1 Cor. 2:14.

(c) Heb. 1:1; 2 Pedr/2 Pet. 1:19; 1 ioan/1 John 5:9; Math./Matt. 22:29.

(d) Ioan/John 4:24; Job 11:7; 1 Tim. 1:17; Luc/Luke 24:39; Iago/James 1:17; Heb. 1:12; Mal. 3:6; Jer. 23:23,24; Salm/Psa. 145:3-17; Gen. 17:1; Rhuf./Rom. 16:26; Esea/Isa. 6:3; Exod. 3:14; Eff./Eph. 1:11; 1 Bren/1 Kings 8:27; Rhuf./Rom. 11:36.

(e) Exod. 34:6,7; Heb. 11:6; Salm/Psa. 5:6; Psa. 130:4; Neh. 9:32,33; Nah. 1:2,3.

(f) Salm/Psa. 89:6; Jer. 10:7; Esea/Isa 40:18; Gen. 1:27; Eff./Eph. 4:24; Col. 3:10.